

Astudiaeth o Goridor Trafnidiaeth Gynaliadwy Morglawdd Penarth Caerdydd


Cefndir a chyd-destun yr astudiaeth

Mae agosrwydd Penarth i Gaerdydd yn cyflwyno heriau a chyfleoedd o ran cysylltedd a hygyrchedd. Er hynny, mae lleoliad y Fro hefyd yn elfen allweddol o ran pam mai hi yw'r ardal sydd â'r gyfradd fwyaf yng Nghymru o bobl yn cymudo allan ohoni, gyda'r rhan fwyaf o'r rhain yn cymudo i Gaerdydd.

Mae'r all-gymudo sylweddol hwn yn achosi tagfeydd ar yr amseroedd brig ar y prif ffyrdd cyflenwol yn nwyrain Bro Morgannwg, sy'n cael effaith negyddol o ran dewisiadau teithio cynaliadwy ar y ffyrdd ar gyfer teithio beunyddiol.

Ym mis Tachwedd 2018 comisiynodd Cyngor Bro Morgannwg gwmni Capita i gynnal asesiad Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) Cam Un (Achos Strategol Amlinellol) a Cham 2 (Achos Busnes Amlinellol) i edrych ar y dewisiadau o ran gwella trafndiaeth gynaliadwy yng nghoridor Morglawdd Penarth i Gaerdydd. Dangosir ardal yr archwiliad yn Ffigur 1.

Cafwyd adroddiad ar Gam Un WelTAG ym mis Mawrth 2019, ac mae Cam 2 WelTAG ar y gweill ar hyn o bryd.



Ffigur 1: Ardal yr Archwiliad

Beth yw WelTAG (Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru)?

Mae WelTAG yn darparu fframwaith ar gyfer meddwl am newidiadau arfaethedig i'r system drafnidiaeth yng Nghymru, gyda chanllawiau arfer gorau ar gyfer datblygu, arfarnu a gwerthuso cynlluniau trafndiaeth arfaethedig.

Mae WelTAG:

- Yn fethodoleg i'w defnyddio i arfarnu cynlluniau trafndiaeth yng Nghymru;
- Yn ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a gofynion buddsoddi cyhoeddus Llywodraeth y DU ('y model 5 achos'); ac
- Yn broses 5 cam



WelTAG Cam Un: Achos Amlinellol Strategol

Lluniwyd Cam Un WelTAG - Astudiaeth o Goridor Trafnidiaeth Gynaliadwy Morglawdd Penarth Caerdydd drwy ymgynghori â rhanddeiliaid a'r cyhoedd. Roedd yn diffinio problemau allweddol yn ardal yr astudiaeth, yn cyflwyno achos clir dros newid, yn llunio amcanion astudio ac yn nodi rhestr hir o ddewisiadau posibl.

Aseswyd amcanion yr astudiaeth i sicrhau eu bod yn cyfrannu at amcanion lles Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'u bod yn cyd-fynd a'r amcanion lles a ddiffinnir gan gyrrff cyhoeddus perthnasol.

CAPITA



Problemau ac Amcanion Allweddol

Problemau Allweddol yn Ardal yr Astudiaeth

- Mae'r traffig a'r tagfeydd presennol yn creu llygredd ac yn golygu amseroedd teithio annibynadwy, yn enwedig yn ystod oriau brig.
- Nid yw'r dewisiadau teithio cynaliadwy sydd ar gael yn ddewis amgen atyniadol yn hytrach na theithio mewn car.
- Mae diffyg cyfleusterau Parcio a Theithio yn yr ardal yn cyfyngu ar y cyfleoedd i gyfnewid y car am deithio cyhoeddus, gan wneud y dewisiadau teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus yn llai deniadol.
- Cryn ddefnydd o geir a defnydd prin o drafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol, yn enwedig ar gyfer cymudo.
- Mae gan y gwasanaethau bws sy'n cysylltu Penarth a Chaerdydd amseroedd teithio araf ac maent yn annibynadwy oherwydd tagfeydd ar hyd y coridor bysiau.
- Nid oes fawr o deithio llesol ar hyn o bryd ar gyfer teithiau beunyddiol, ac mae angen cynyddu hyn er mwyn gwireddu manteision iechyd tymor hir teithio llesol.
- Mae ffactorau amgylcheddol yn gwneud cerdded neu feicio yn llai deniadol.
- Mae materion diogelwch yn rhwystr i gerdded a beicio.
- Mae diffyg llwybrau beicio a cherdded diogel, hygyrch, deniadol, cysylltiedig ac uniongyrchol ym Mhenarth a rhwng Penarth a Chaerdydd yn golygu nad yw hi'n braf cerdded na beicio ac mae'n rhwystr i annog teithio llesol.
- Mae diffyg cyfleusterau i feicwyr ar ddechrau a chyrchfan eu taith yn golygu nad yw teithio llesol yn ddeniadol.
- Mae tirwedd yr ardal yn rhwystr i deithio llesol ac yn creu anawsterau o ran creu seilwaith teithio llesol.
- Mae diffyg cysylltedd â'r ardal ehangach yn lleihau'r potensial i ddenu twristiaid ac ymwelwyr hamdden i Benarth.
- Mae'r traffig trwm yn rhwystr i gerdded a beicio ac i gynyddu lefelau teithio llesol.
- Mae allyriadau traffig ffordd a thagfeydd yn cyfrannu at ansawdd aer gwael.

Amcanion Astudio

- Gwella cysylltedd cynaliadwy drwy holl goridor trafndiaeth Morglawdd Penarth Caerdydd fel bod pobl yn dechrau dewis trafndiaeth gyhoeddus a theithio llesol yn hytrach na'u ceir eu hunain.
- Lleihau rhwystrau sy'n llyffetheirio cyfleoedd i gynyddu teithio ar drafnidiaeth gynaliadwy.
- Cynyddu dewisiadau teithio cynaliadwy sy'n gwella hygyrchedd ar hyd coridor trafndiaeth Morglawdd Penarth Caerdydd ac sy'n cefnogi cynhwysiant cymdeithasol, iechyd a lles.
- Cyflawni gwelliannau cynaliadwy i drafnidiaeth gyhoeddus sy'n annog mwy o weithgarwch economaidd ac yn cefnogi buddsoddi hirdymor.
- Cyflwyno mesurau teithio cynaliadwy sy'n gwarchod ac yn gwella'r amgylchedd hanesyddol, adeiledig a naturiol.

Rhestr Fer o Ddewisiadau

Edrychodd WelTAG Cam Un ar nifer o ddewisiadau posibl i wella trafndiaeth gyhoeddus yn ardal yr astudiaeth gan derfynu drwy argymhell rhestr fer o dri dewis (ynghyd â dewis 'gwneud y lleiaf posibl') i'w gwerthuso ymhellach yng Ngham 2.

Y rhain oedd:

- Dewis 1: Cynigion teithio llesol ar gyfer Coridor Morglawdd Penarth Caerdydd;
- Dewis 2: Cyfleuster Bysiau Parcio a Theithio Cosmeston a Chyswllt Bws Blaenoriaethol dros Forglawdd Caerdydd;
- Dewis 3: Cyfnewidfa Drafnidiaeth Gynaliadwy Aml-foddol Cogon; a
- Dewis 4: Gwneud y lleiaf posibl.

D.S. Bydd Dewis 4 'Y Lleiaf Posibl' yn mynd ymlaen i Gam 2, yn unol â chanllawiau WelTAG, fel llinell sylfaen ar gyfer arfarnu. Byddai'r dewis hwn yn golygu dim ond cynnal a chadw'r seilwaith presennol er mwyn cadw'r rhwydweithiau trafndiaeth yn weithredol.

Cafodd pob un o'r dewisiadau sydd ar y rhestr fer eu harfarnu o ran eu gallu i fynd i'r afael â'r problemau a ganfuwyd, bodloni amcanion yr astudiaeth a'u heffaith o ran agweddau amgylcheddol, economaidd, diwylliannol a chymdeithasol. Mae crynodeb o'r canlyniadau i'w weld yn Nhabl 3, 4 ac 5.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Yn ganolog i'r arfarniad roedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gyda'r pum ffordd o weithio yn greiddiol i'r prosesau a roddwyd ar waith (gweler Tabl 3). Arfarnwyd pob un o'r cynlluniau yng Ngham 1 o ran eu heffaith ar y saith amcan lles a ddiffinnir yn y ddeddf ynghyd â'r nodau llesiant a ddiffinnir gan y cyrff cyhoeddus perthnasol.

Tabl 1 - Pum ffordd o weithio

Ffordd o weithio a ddiffiniwyd yn y ddeddf



HIRDYMOR

Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.



ATAL

Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.



INTEGREIDDIO

Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.



CYDWEITHIO

Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.



CANNWYS

Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu.

Sut y rhoddwyd sylw i hynny wrth gynnal yr astudiaeth

Nodi tueddiadau tymor hir gan ddefnyddio gwybodaeth o'r Asesiad Llesiant a luniwyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Asesu gallu'r cynllun i fynd i'r afael â thueddiadau hirdymor.

Mae pob cynllun wedi ei asesu o ran ei allu i fynd i'r afael â phroblemau a ganfuwyd yn ardal yr astudiaeth, fel y gellir atal problemau neu leihau eu heffeithiau drwy weithredu dewis.

Mae pob un o amcanion lles y cyrff cyhoeddus perthnasol wedi eu dynodi a phob cynllun wedi ei asesu o ran sut y maen nhw'n cyflawni'r amcanion llesiant. Mae amcanion astudio wedi eu llunio i integreiddio â'r amcanion llesiant.

Gweithio gyda rhanddeiliaid drwy gyfrwng gweithdai cam Un a cham Dau i ganfod, ar y cyd, problemau gydag ardal yr astudiaeth, llunio amcanion cynllun a datblygu dewisiadau.

Rydym ni wedi cynnwys y cyhoedd drwy gynnal dau ddigwyddiad ymgynghori cyhoeddus a chyfnod ymgynghori chwe wythnos i sicrhau ein bod yn casglu amrywiaeth barn pobl yn ardal yr astudiaeth.

WelTAG Cam Dau: Achos Busnes Amlinellol

Mae gwaith arfarnu a dichonolrwydd pellach ar y gweill ar hyn o bryd ar bob un o'r dewisiadau sydd ar y rhestr fer.

Mae'r digwyddiad hwn yn nodi dechrau cyfnod ymgynghori cyhoeddus chwe wythnos, ac i sicrhau'r canlyniadau gorau o'r astudiaeth, byddem yn ddiolchgar pe gallech chi lenwi holiadur byr yn nodi eich barn ynglŷn â'r dewisiadau. Caiff yr holiaduron wedyn eu hystyried yn ystod Cam 2 arfarniad Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) ar y dewisiadau rhestr fer.


Os hoffech chi gael mwy o amser i ystyried y cynigion, neu eich bod yn gwybod am bobl nad oedd yn gallu bod yn bresennol heddiw ond a fyddai o bosib â diddordeb mewn cyfrannu eu barn, bydd modd ymateb i'r ymgynghoriad hyd at **Ddydd Mercher 31 Gorffennaf 2019** gyda'r holl ddeunydd cyflwyno a fersiwn ar-lein o'r holiadur ar gael ar:

www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/Roads/Transport-Studies/Transport-Studies.aspx

Dewis 1: Cynigion teithio llesol ar gyfer Coridor Morglawdd Penarth Caerdydd

Mae'r dewis hwn yn cynnwys gweithredu'r cynigion Teithio Llesol ym Map Rhwydwaith Integredig Bro Morgannwg a fydd yn fwyaf llesol i goridau Morglawdd Penarth Caerdydd. Mae hyn yn cynnwys gweithredu Cyswllt Pentir Penarth – Sarn gerrig 1km arfaethedig rhwng Promenâd Penarth a Morglawdd Caerdydd i gerddwyr a beicwyr ei rannu.

Dangosir y cysylltiadau arfaethedig yn Ffigur 2 ac mae modd gweld crynodeb o'r gwelliannau posibl fesul cyswllt yn Nhabl 2.



Ffigur 2 – Cynigion Teithio Llesol Map Rhwydwaith Integredig ar gyfer Coridor Morglawdd Penarth Caerdydd

Cynigion Teithio Llesol Map Rhwydwaith Integredig ar gyfer Coridor Morglawdd Penarth Caerdydd

Tabl 2 – Gwelliannau Posibl

CYSWLLT	GWELLIANNAU POSIBL
Pob cyswllt	<ul style="list-style-type: none"> Cyfyngiad cyflymder 20mya i'w ystyried Angen ystyried cael mwy o fannau parcio beiciau
 Cyswllt A Llwybr igam-ogam o Ganol Tref Penarth ar hyd Royal Close a Stryd Arcot	<ul style="list-style-type: none"> Marciau beicio mwy aml ar y briffordd Gwell arwyddion llwybr, yn enwedig tuag at ganol y dref Darparu mwy o fannau parcio beiciau Cyflwyno cyfyngiadau parcio ar gyffyrdd fel ei bod hi'n haws gweld Gwelliannau i gyffordd/man croesi Arcot Road/Heol Windsor/Hickman Road (e.e. culhau/lledu palmentydd cyffyrdd)
 Cyswllt B Morglawdd Caerdydd i Ganol Tref Penarth ar hyd Paget Road, Stanwell Crescent ac Albert Road	<ul style="list-style-type: none"> Marciau beicio mwy aml ar y briffordd Arwyddion llwybr Marciau i godi ymwybyddiaeth o feiciau, yn enwedig ar draws/ar gyffyrdd (e.e. darnau o lonydd beicio lliw ar draws mynedfeydd/allanfeydd cyffyrdd) Cyflwyno cyfyngiadau parcio ar gyffyrdd fel ei bod hi'n haws gweld Gwefus palmant isel mewn manau croesi 'dymunol' ar hyd y llwybr
 Cyswllt C Canol Tref Penarth i Bromenâd Penarth ar hyd Heol Windsor, Windsor Terrace a Ffordd y Traeth	<ul style="list-style-type: none"> Marciau beicio mwy aml ar y briffordd Arwyddion llwybr Marciau i godi ymwybyddiaeth o feiciau, yn enwedig ar draws/ar gyffyrdd (e.e. darnau o lonydd beicio lliw ar draws mynedfeydd / allanfeydd cyffyrdd) Gwefus palmant isel mewn manau croesi 'dymunol' ar hyd y llwybr Ystyried gwella'r sefyllfa i feicwyr ar gylchfan Heol Windsor/Windsor Terrace
 Cyswllt D Cyswllt Canol Tref Penarth ar hyd Heol Stanwell	<ul style="list-style-type: none"> Marciau beicio mwy aml ar y briffordd Arwyddion llwybr Ystyried gwelliannau i gyffordd Heol Stanwell/Hickman Road/ Heol Plymouth lle mae goleuadau traffig
 Cyswllt E Cyswllt Marina Penarth	<ul style="list-style-type: none"> Gwell arwyddion llwybr Ystyried gwella nodweddion lliniaru traffig o safbwynt beicwyr
 Cyswllt F Cyswllt Cornerswell Road a Heol Stanwell	<ul style="list-style-type: none"> Marciau beicio mwy aml ar y briffordd Arwyddion llwybr Marciau i godi ymwybyddiaeth o feiciau, yn enwedig ar draws/ar gyffyrdd (e.e. darnau o lonydd beicio lliw ar draws mynedfeydd/allanfeydd cyffyrdd) Gwelliannau i gylchfan bychan Cornerswell Road/Heol Stanwell ar gyfer cerddwyr a beicwyr
 Cyswllt G Cyswllt Dinas Road a Victoria Road	<ul style="list-style-type: none"> Marciau beicio mwy aml ar y briffordd Arwyddion llwybr Mwy o wefusau palmant isel mor agos â phosibl at fannau croesi 'dymunol' Ystyried gwelliannau i'r mynediad i Station Approach a'r llwybr trwodd
 Cyswllt H Canol Tref Penarth i Railway Walk ar hyd Hickman Road a Plymouth Road.	<ul style="list-style-type: none"> Marciau beicio mwy aml ar y briffordd Arwyddion llwybr Marciau i godi ymwybyddiaeth o feiciau, yn enwedig ar draws/ar gyffyrdd (e.e. darnau o lonydd beicio lliw ar draws mynedfeydd/allanfeydd cyffyrdd) Ystyried gwelliannau i gyffordd Heol Stanwell/Hickman Road/Heol Plymouth lle mae goleuadau traffig Newid cynllun y briffordd ym mhen gorllewinol Plymouth Road (e.e. cael gwared ar y llain ganol a pharcio, gwella tir y cyhoedd) Gwelliannau mynediad i Railway Walk
 Cyswllt I Promenâd Penarth i Railway Walk (ar hyd Cliff Hill)	<ul style="list-style-type: none"> Ystyried y dewisiadau ar gyfer aildrefnu'r lle sydd ar gael ar y briffordd/palmant ar hyd y Promenâd a Cliff Hill fel bod modd cael llwybr dwyffordd i feicwyr Lledu'r llwybr oddi ar y ffordd rhwng Cliff Hill a Channel View i ddarparu llwybr aml-ddefnydd a man mynediad gwell yn Channel View Marciau beicio mwy aml ar y briffordd ar hyd Channel View, Heol Plymouth, Fforest Road, The Paddocks a Birch Lane Arwyddion llwybr
 Cyswllt J Cyswllt Cwrt-y-Vil Road a Robinswood Crescent.	<ul style="list-style-type: none"> Marciau beicio mwy aml ar y briffordd Arwyddion llwybr Marciau i godi ymwybyddiaeth o feiciau, yn enwedig ar draws/ar gyffyrdd (e.e. darnau o lonydd beicio lliw ar draws mynedfeydd/allanfeydd cyffyrdd) Cyflwyno cyfyngiadau parcio ar gyffyrdd fel bod modd gweld yn well Cyswllt lletach o'r llwybr ar y ffordd i'r llwybr oddi ar y ffordd presennol ym mhen deheuol Robinswood Crescent Gwefus palmant isel mewn manau croesi addas
 Cyswllt K Cyswllt Pentir Penarth	<ul style="list-style-type: none"> Creu sarn gerrig 1cilometr rhwng Promenâd Penarth a phen deheuol Morglawdd Bae Caerdydd i greu cyswllt i gerddwyr a beicwyr ei rannu

Adolygiad Dewis 1

Tabl 3 – Adolygiad cynigion Teithio Llesol ar gyfer Coridor Morglawdd Penarth Caerdydd

<p>Problemau yr eir i'r afael â nhw</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r traffig a'r tagfeydd presennol yn achosi amseroedd teithio annibynadwy, oedi a llygredd Mae'r traffig trwm yn rhwystr i gerdded a beicio Nid yw'r dewisiadau teithio cynaliadwy yn ddewis amgen atyniadol yn hytrach na theithio mewn car Gwasanaethau bws annibynadwy ac amseroedd teithio araf Ychydig o Deithio Llesol Mae materion diogelwch yn rhwystr i gerdded a beicio Diffyg llwybrau cerdded a beicio diogel, hygyrch, deniadol, cysylltiedig ac uniongyrchol Diffyg cyfleusterau i feicwyr ar ddechrau a chyrchfan eu taith Ffactorau amgylcheddol yn gwneud cerdded a beicio yn llai deniadol Tirwedd yr ardal yn rhwystr i gerdded a beicio Allryiadau traffig ffordd a thagfeydd yn cyfrannu at leihau ansawdd yr aer Cysylltedd gwael â'r ardal ehangach yn lleihau'r potensial ar gyfer twristiaeth ac ymwelwyr hamdden 	
<p>Arfarniad o'r Amcanion</p>	<p>Gwella cysylltedd cynaliadwy drwy holl goridor trafndiaeth Morglawdd Penarth Caerdydd fel bod pobl yn dechrau dewis trafndiaeth gyhoeddus a theithio llesol yn hytrach na'u ceir eu hunain</p> <p style="text-align: right;">+++</p>	
	<p>Lleihau rhwystrau sy'n llyffetheirio cyfleoedd i gynyddu teithio ar drafnidiaeth gynaliadwy</p> <p style="text-align: right;">+++</p>	
	<p>Cynyddu dewisiadau teithio cynaliadwy i wella hygyrchedd ar hyd coridor trafndiaeth Morglawdd Penarth Caerdydd a chefnogi cynhwysiant cymdeithasol, iechyd a lles</p> <p style="text-align: right;">+++</p>	
	<p>Cyflawni gwelliannau i drafnidiaeth sy'n annog mwy o weithgarwch economaidd ac yn cefnogi buddsoddi hirdymor</p> <p style="text-align: right;">++</p>	
	<p>Cyflwyno dulliau teithio cynaliadwy sy'n gwarchod ac yn gwella'r amgylchedd hanesyddol, adeiledig a naturiol</p> <p style="text-align: right;">++</p>	
<p>Manteision/ Anfanteision</p>	<p>Manteision</p> <ul style="list-style-type: none"> Byddai'n darparu rhwydwaith o lwybrau Teithio Llesol ym Mhenarth ac yn cysylltu â llwybrau ansawdd uchel sydd eisoes yn bodoli (e.e. Morglawdd, Pont y Werin, Railway Walk) Byddai modd cyflawni sawl ymyrraeth lwyddiannus o fewn amserlen gymharol fer Gallai cynigion wella diogelwch (gwirioneddol a rhagdybiaethol) cerddwyr a beicwyr yng nghanol y dref drwy gyflwyno cyfyngiad cyflymder o 20mya Gallai arwain at fanteision iechyd a lles drwy annog mwy o gerdded a beicio Gallai cynigion mwy o faint (e.e. Cyswllt Pentir Penarth) ddod â manteision twristiaeth a hamdden yn ei sgil Mae mwyafrif y cynigion o fewn ffiniau'r briffordd ac nid oes unrhyw ofynion tir 	<p>Anfanteision</p> <ul style="list-style-type: none"> Anodd goresgyn tirwedd serth ym Mhenarth, a fyddai'n gwneud rhai o'r llwybrau Teithio Llesol arfaethedig yn llai hygyrch Costau cyfalaf sylweddol yn gysylltiedig â'r cynigon mwy o faint (e.e. Cyswllt Pentir Penarth) Nid yw'n cynnwys llwybrau deniadol posibl y tu allan i Fap Rhwydwaith Integredig Bro Morgannwg Diffyg lle mewn sawl man i wneud gwelliannau oddi ar y ffordd – gallai diffyg arwahanrwydd beicwyr oddi wrth y traffig wneud llwybrau yn llai deniadol Efallai mai dim ond effaith gyfyngedig fydd gwelliannau teithio llesol yn ei chael ar leihau teithiau cymudo mewn ceir
<p>Cyfyngiadau/ Dibyniaethau</p>	<p>Cyfyngiadau</p> <ul style="list-style-type: none"> Angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol i gyflawni'r holl gynigion Teithio Llesol Ystyriaethau amgylcheddol a daearyddol-dechnegol yn gysylltiedig â datblygu a gweithredu Cyswllt Pentir Penarth Cyfyngiadau'r amgylchedd adeiledig (e.e. lled ffordd, faint o barcio) yn cyfyngu ar faint o welliannau y gellir eu gwneud o ran beicio oddi ar y ffordd Nifer o gyffyrdd heriol a chyfyng ar hyd y llwybrau megis cyffordd Heol Plymouth/ Heol Stanwell a chylchfan Windsor Road/ Windsor Terrace/Heol Stanwell 	<p>Dibyniaethau</p> <ul style="list-style-type: none"> Bydd hi'n bwysig bod seilwaith teithio llesol ar gael mewn mannau cychwyn/ cyrchfannau allweddol er mwyn cynyddu'r defnydd o lwybrau Teithio Llesol (e.e. cawodydd a mannau cadw beiciau yn y gwaith). Cyfleuster llogi beiciau ym Mhenarth – bydd angen trafod gyda sefydliadau trydydd parti Byddai angen cysylltiadau diogel a deniadol i gyrchfannau y tu allan i ardal yr astudiaeth (e.e. yn cysylltu â chynigion Cyngor Caerdydd ar gyfer gwelliannau Teithio Llesol) Byddai angen rhoi ystyriaeth fanwl i gynnal a chadw ac unrhyw ofynion gweithredu o ran seilwaith newydd (e.e. y rhai hynny sy'n gysylltiedig â Chyswllt Pentir Penarth)


ALLWED:

CADARNHAOL IAWN (+++)	EITHAF CADARNHAOL (++)	YCHYDIG AGWEDDAU CADARNHAOL (+)	NIWTRAL (0)
NEGYDDOL IAWN (---)	EITHAF NEGYDDOL (--)	YCHYDIG AGWEDDAU NEGYDDOL (-)	

Dewis 2: Cyfleuster Bysiau Parcio a Theithio Cosmeston a Chyswllt Bws Blaenoriaethol dros Forglawdd Caerdydd

Mae'r dewis hwn yn cynnwys cyfleuster bysiau Parcio a Theithio a chynllun bysiau blaenoriaethol sy'n darparu cyswllt ar hyd Coridor Morglawdd Penarth Caerdydd. Mae'r dewis yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- Darparu cyfleuster bysiau Parcio a Theithio gan ddefnyddio'r maes parcio ychwanegol ym Mharc Gwledig Llynnoedd Cosmeston.
- Gweithredu mesurau sy'n rhoi blaenoriaeth i fysiau (lle bo'n bosibl) ar hyd y llwybr bysiau o'r cyfleuster Parcio a Theithio i Forglawdd Caerdydd (h.y. ar hyd y B4267, Westbourne Road, Heol Stanwell, Albert Road, Clive Place, St Augustine's Crescent, Paget Place a Paget Road i ddarparu mynediad i Forglawdd Caerdydd.
- Parhau â'r llwybr bws dros Forglawdd Caerdydd i ddarparu mynediad uniongyrchol i Fae Caerdydd a chanol dinas Caerdydd.



Ffigur 3 - Cyfleuster Bysiau Parcio a Theithio Cosmeston a'r Cyswllt Bws Blaenoriaethol dros Forglawdd Caerdydd.

Adolygiad Dewis 2

Tabl 4 - Cyfleuster Bysiau Parcio a Theithio Cosmeston a'r Cyswllt Bws Blaenoriaethol dros Forglawdd Caerdydd

<p>Problemau yr eir i'r afael â nhw</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r traffig a'r tagfeydd presennol yn achosi amseroedd teithio annibynadwy, oedi a llygredd Mae'r traffig trwm yn rhwystri i gerdded a beicio Cryn ddefnydd o geir a defnydd prin o drafnidiaeth gyhoeddus Nid yw'r dewisiadau teithio cynaliadwy yn ddewis amgen atyniadol yn hytrach na theithio mewn car Gwasanaethau bws annibynadwy ac amseroedd teithio araf Mae'r diffyg cyfleusterau Parcio a Theithio yn cyfyngu ar ddewisiadau o ran cyfnewid i drafnidiaeth gyhoeddus Ychydig o Deithio Llesol Diffyg cyfleusterau i feicwyr ar ddechrau a chyrchfan eu taith Allryiadau traffig ffordd a thagfeydd yn cyfrannu at leihau ansawdd yr aer Cysylltedd gwael â'r ardal ehangach yn lleihau'r potensial ar gyfer twristiaeth ac ymwelwyr hamdden 										
<p>Arfarniad o Amcanion</p>	<table border="1"> <tr> <td data-bbox="346 844 1270 974">Gwella cysylltedd cynaliadwy drwy holl goridor trafndiaeth Morglawdd Penarth Caerdydd fel bod pobl yn dechrau dewis trafndiaeth gyhoeddus a theithio llesol yn hytrach na'u ceir eu hunain</td> <td data-bbox="1270 844 1432 974">+++</td> </tr> <tr> <td data-bbox="346 974 1270 1075">Lleihau rhwystrau sy'n llyffetheirio cyfleoedd i gynyddu teithio ar drafnidiaeth gynaliadwy</td> <td data-bbox="1270 974 1432 1075">+++</td> </tr> <tr> <td data-bbox="346 1075 1270 1177">Cynyddu dewisiadau teithio cynaliadwy i wella hygyrchedd ar hyd coridor trafndiaeth Morglawdd Penarth Caerdydd a chefnogi cynhwysiant cymdeithasol, iechyd a lles</td> <td data-bbox="1270 1075 1432 1177">+++</td> </tr> <tr> <td data-bbox="346 1177 1270 1278">Gwneud gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus sy'n annog mwy o weithgarwch economaidd ac yn cefnogi buddsoddi hirdymor</td> <td data-bbox="1270 1177 1432 1278">+++</td> </tr> <tr> <td data-bbox="346 1278 1270 1360">Cyflwyno dulliau teithio cynaliadwy sy'n gwarchod ac yn gwella'r amgylchedd hanesyddol, adeiledig a naturiol</td> <td data-bbox="1270 1278 1432 1360">++</td> </tr> </table>	Gwella cysylltedd cynaliadwy drwy holl goridor trafndiaeth Morglawdd Penarth Caerdydd fel bod pobl yn dechrau dewis trafndiaeth gyhoeddus a theithio llesol yn hytrach na'u ceir eu hunain	+++	Lleihau rhwystrau sy'n llyffetheirio cyfleoedd i gynyddu teithio ar drafnidiaeth gynaliadwy	+++	Cynyddu dewisiadau teithio cynaliadwy i wella hygyrchedd ar hyd coridor trafndiaeth Morglawdd Penarth Caerdydd a chefnogi cynhwysiant cymdeithasol, iechyd a lles	+++	Gwneud gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus sy'n annog mwy o weithgarwch economaidd ac yn cefnogi buddsoddi hirdymor	+++	Cyflwyno dulliau teithio cynaliadwy sy'n gwarchod ac yn gwella'r amgylchedd hanesyddol, adeiledig a naturiol	++
Gwella cysylltedd cynaliadwy drwy holl goridor trafndiaeth Morglawdd Penarth Caerdydd fel bod pobl yn dechrau dewis trafndiaeth gyhoeddus a theithio llesol yn hytrach na'u ceir eu hunain	+++										
Lleihau rhwystrau sy'n llyffetheirio cyfleoedd i gynyddu teithio ar drafnidiaeth gynaliadwy	+++										
Cynyddu dewisiadau teithio cynaliadwy i wella hygyrchedd ar hyd coridor trafndiaeth Morglawdd Penarth Caerdydd a chefnogi cynhwysiant cymdeithasol, iechyd a lles	+++										
Gwneud gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus sy'n annog mwy o weithgarwch economaidd ac yn cefnogi buddsoddi hirdymor	+++										
Cyflwyno dulliau teithio cynaliadwy sy'n gwarchod ac yn gwella'r amgylchedd hanesyddol, adeiledig a naturiol	++										
<p>Manteision/ Anfanteision</p>	<table border="1"> <tr> <td data-bbox="346 1360 885 2172"> <p>Manteision</p> <ul style="list-style-type: none"> Gallai wneud trafndiaeth gyhoeddus yn fwy deniadol na'r car preifat o ran teithio i Gaerdydd Byddai'n gyswllt mwy uniongyrchol a rheolaidd rhwng Bae Caerdydd ac ardal yr astudiaeth gan olygu na fyddai angen teithio drwy Cogan a/ neu ganol dinas Caerdydd Byddai'n lleihau amserau teithio bysiau rhwng Bae Caerdydd ac ardal yr astudiaeth Mae'r llwybr bws arfaethedig yn osgoi manau lle mae tagfeydd ar hyn o bryd wrth deithio o Benarth i Gaerdydd (e.e. cyffordd Barons Court) Yn darparu dewis Parcio a Theithio i gymudwyr mewn ardal lle mae dewisiadau Parcio a Theithio cyfyngedig ar gael ar hyn o bryd Mae'r safle Parcio a Theithio arfaethedig yn defnyddio lle parcio sydd eisoes yn bodoli Bydd y cynnig yn darparu cyswllt trafndiaeth gyhoeddus uniongyrchol rhwng cyrchfannau hamdden/twristiaeth (h.y. Parc Gwledig Cosmeston a Bae Caerdydd) </td> <td data-bbox="885 1360 1432 2172"> <p>Anfanteision</p> <ul style="list-style-type: none"> Gallai wneud y llwybr cerdded a beicio presennol dros Forglawdd Caerdydd yn llai deniadol Mae'n bosibl iddo wneud y llwybrau bysiau presennol yn llai deniadol (e.e. y coridor bws sy'n mynd ar hyd Windsor Road/Penarth Road) Byddai'r llwybr arfaethedig yn osgoi'r prif fan ar gyfer dod oddi ar fws yng nghanol tref Penarth (Windsor Terrace) Byddai llawer o'r llwybr yn mynd ar hyd priffyrdd lle byddai traffig eisoes. Mae tagfeydd mewn manau ar hyd y llwybr bws arfaethedig yn debygol o gael effaith negyddol ar amseroedd teithio bws (e.e. yng nghanol tref Penarth ac yng nghanol dinas Caerdydd) Dalgylch cyfyngedig yn Cosmeston ar gyfer Parcio a Theithio oherwydd bydd yn bennaf yn denu defnyddwyr o'r Sili ac ardal Penarth Isaf a bydd angen i ddefnyddwyr posibl ddod oddi ar y brif rwydwaith briffyrdd </td> </tr> </table>	<p>Manteision</p> <ul style="list-style-type: none"> Gallai wneud trafndiaeth gyhoeddus yn fwy deniadol na'r car preifat o ran teithio i Gaerdydd Byddai'n gyswllt mwy uniongyrchol a rheolaidd rhwng Bae Caerdydd ac ardal yr astudiaeth gan olygu na fyddai angen teithio drwy Cogan a/ neu ganol dinas Caerdydd Byddai'n lleihau amserau teithio bysiau rhwng Bae Caerdydd ac ardal yr astudiaeth Mae'r llwybr bws arfaethedig yn osgoi manau lle mae tagfeydd ar hyn o bryd wrth deithio o Benarth i Gaerdydd (e.e. cyffordd Barons Court) Yn darparu dewis Parcio a Theithio i gymudwyr mewn ardal lle mae dewisiadau Parcio a Theithio cyfyngedig ar gael ar hyn o bryd Mae'r safle Parcio a Theithio arfaethedig yn defnyddio lle parcio sydd eisoes yn bodoli Bydd y cynnig yn darparu cyswllt trafndiaeth gyhoeddus uniongyrchol rhwng cyrchfannau hamdden/twristiaeth (h.y. Parc Gwledig Cosmeston a Bae Caerdydd) 	<p>Anfanteision</p> <ul style="list-style-type: none"> Gallai wneud y llwybr cerdded a beicio presennol dros Forglawdd Caerdydd yn llai deniadol Mae'n bosibl iddo wneud y llwybrau bysiau presennol yn llai deniadol (e.e. y coridor bws sy'n mynd ar hyd Windsor Road/Penarth Road) Byddai'r llwybr arfaethedig yn osgoi'r prif fan ar gyfer dod oddi ar fws yng nghanol tref Penarth (Windsor Terrace) Byddai llawer o'r llwybr yn mynd ar hyd priffyrdd lle byddai traffig eisoes. Mae tagfeydd mewn manau ar hyd y llwybr bws arfaethedig yn debygol o gael effaith negyddol ar amseroedd teithio bws (e.e. yng nghanol tref Penarth ac yng nghanol dinas Caerdydd) Dalgylch cyfyngedig yn Cosmeston ar gyfer Parcio a Theithio oherwydd bydd yn bennaf yn denu defnyddwyr o'r Sili ac ardal Penarth Isaf a bydd angen i ddefnyddwyr posibl ddod oddi ar y brif rwydwaith briffyrdd 								
<p>Manteision</p> <ul style="list-style-type: none"> Gallai wneud trafndiaeth gyhoeddus yn fwy deniadol na'r car preifat o ran teithio i Gaerdydd Byddai'n gyswllt mwy uniongyrchol a rheolaidd rhwng Bae Caerdydd ac ardal yr astudiaeth gan olygu na fyddai angen teithio drwy Cogan a/ neu ganol dinas Caerdydd Byddai'n lleihau amserau teithio bysiau rhwng Bae Caerdydd ac ardal yr astudiaeth Mae'r llwybr bws arfaethedig yn osgoi manau lle mae tagfeydd ar hyn o bryd wrth deithio o Benarth i Gaerdydd (e.e. cyffordd Barons Court) Yn darparu dewis Parcio a Theithio i gymudwyr mewn ardal lle mae dewisiadau Parcio a Theithio cyfyngedig ar gael ar hyn o bryd Mae'r safle Parcio a Theithio arfaethedig yn defnyddio lle parcio sydd eisoes yn bodoli Bydd y cynnig yn darparu cyswllt trafndiaeth gyhoeddus uniongyrchol rhwng cyrchfannau hamdden/twristiaeth (h.y. Parc Gwledig Cosmeston a Bae Caerdydd) 	<p>Anfanteision</p> <ul style="list-style-type: none"> Gallai wneud y llwybr cerdded a beicio presennol dros Forglawdd Caerdydd yn llai deniadol Mae'n bosibl iddo wneud y llwybrau bysiau presennol yn llai deniadol (e.e. y coridor bws sy'n mynd ar hyd Windsor Road/Penarth Road) Byddai'r llwybr arfaethedig yn osgoi'r prif fan ar gyfer dod oddi ar fws yng nghanol tref Penarth (Windsor Terrace) Byddai llawer o'r llwybr yn mynd ar hyd priffyrdd lle byddai traffig eisoes. Mae tagfeydd mewn manau ar hyd y llwybr bws arfaethedig yn debygol o gael effaith negyddol ar amseroedd teithio bws (e.e. yng nghanol tref Penarth ac yng nghanol dinas Caerdydd) Dalgylch cyfyngedig yn Cosmeston ar gyfer Parcio a Theithio oherwydd bydd yn bennaf yn denu defnyddwyr o'r Sili ac ardal Penarth Isaf a bydd angen i ddefnyddwyr posibl ddod oddi ar y brif rwydwaith briffyrdd 										
<p>Cyfyngiadau/ dibyniaethau</p>	<table border="1"> <tr> <td data-bbox="346 2172 885 2971"> <p>Cyfyngiadau</p> <ul style="list-style-type: none"> Heriau technegol a gweithredol o ran cyflwyno bysiau ar Forglawdd Caerdydd Yn unol â Deddf y Morglawdd, mae gan draffig dŵr flaenoriaeth dros draffig ffordd o ran mynd i mewn i/dod allan o Forglawdd Caerdydd Byddai hyn yn cyfyngu ar ba mor aml y gellir darparu gwasanaethau bws dros Forglawdd Caerdydd Diffyg lle ar y briffordd i weithredu mesurau blaenoriaethu bysiau ar hyd y llwybr rhwng Cosmeston a Morglawdd Caerdydd - a fydd yn gwneud y gwasanaeth yn llai deniadol Pa mor ddymunol y byddai Cosmeston fel safle Parcio a Theithio oherwydd y pellter o'r A4055 Efallai y bydd angen i'r bws sy'n gwasanaethu'r cyfleuster Parcio a Theithio weithredu fel gwasanaeth a gefnogir Mae CDLL Cyngor Caerdydd yn amlygu'r defnydd o dir sydd ym mherchnogaeth yr Associated British Ports i'w ddefnyddio o bosib fel y llwybr bws ar ochr Bae Caerdydd y Morglawdd - gallai olygu bod angen prynu tir </td> <td data-bbox="885 2172 1432 2971"> <p>Dibyniaethau</p> <ul style="list-style-type: none"> Cyngor Caerdydd sy'n gyfrifol am reoli Morglawdd Caerdydd Gwrthdaro posibl rhwng bysiau a'r rhai sydd eisoes yn defnyddio Morglawdd Caerdydd (cerddwyr a beicwyr) Pwysigrwydd Parc Gwledig Llynnoedd Cosmeston fel atyniad amgylcheddol, treftadaeth ac ymwelwyr - byddai angen sicrhau na fyddai'r cynnig Parcio a Theithio yn cael effaith negyddol Costau refeniw parhaol posibl yn gysylltiedig â gweithredu'r gwasanaeth bws </td> </tr> </table>	<p>Cyfyngiadau</p> <ul style="list-style-type: none"> Heriau technegol a gweithredol o ran cyflwyno bysiau ar Forglawdd Caerdydd Yn unol â Deddf y Morglawdd, mae gan draffig dŵr flaenoriaeth dros draffig ffordd o ran mynd i mewn i/dod allan o Forglawdd Caerdydd Byddai hyn yn cyfyngu ar ba mor aml y gellir darparu gwasanaethau bws dros Forglawdd Caerdydd Diffyg lle ar y briffordd i weithredu mesurau blaenoriaethu bysiau ar hyd y llwybr rhwng Cosmeston a Morglawdd Caerdydd - a fydd yn gwneud y gwasanaeth yn llai deniadol Pa mor ddymunol y byddai Cosmeston fel safle Parcio a Theithio oherwydd y pellter o'r A4055 Efallai y bydd angen i'r bws sy'n gwasanaethu'r cyfleuster Parcio a Theithio weithredu fel gwasanaeth a gefnogir Mae CDLL Cyngor Caerdydd yn amlygu'r defnydd o dir sydd ym mherchnogaeth yr Associated British Ports i'w ddefnyddio o bosib fel y llwybr bws ar ochr Bae Caerdydd y Morglawdd - gallai olygu bod angen prynu tir 	<p>Dibyniaethau</p> <ul style="list-style-type: none"> Cyngor Caerdydd sy'n gyfrifol am reoli Morglawdd Caerdydd Gwrthdaro posibl rhwng bysiau a'r rhai sydd eisoes yn defnyddio Morglawdd Caerdydd (cerddwyr a beicwyr) Pwysigrwydd Parc Gwledig Llynnoedd Cosmeston fel atyniad amgylcheddol, treftadaeth ac ymwelwyr - byddai angen sicrhau na fyddai'r cynnig Parcio a Theithio yn cael effaith negyddol Costau refeniw parhaol posibl yn gysylltiedig â gweithredu'r gwasanaeth bws 								
<p>Cyfyngiadau</p> <ul style="list-style-type: none"> Heriau technegol a gweithredol o ran cyflwyno bysiau ar Forglawdd Caerdydd Yn unol â Deddf y Morglawdd, mae gan draffig dŵr flaenoriaeth dros draffig ffordd o ran mynd i mewn i/dod allan o Forglawdd Caerdydd Byddai hyn yn cyfyngu ar ba mor aml y gellir darparu gwasanaethau bws dros Forglawdd Caerdydd Diffyg lle ar y briffordd i weithredu mesurau blaenoriaethu bysiau ar hyd y llwybr rhwng Cosmeston a Morglawdd Caerdydd - a fydd yn gwneud y gwasanaeth yn llai deniadol Pa mor ddymunol y byddai Cosmeston fel safle Parcio a Theithio oherwydd y pellter o'r A4055 Efallai y bydd angen i'r bws sy'n gwasanaethu'r cyfleuster Parcio a Theithio weithredu fel gwasanaeth a gefnogir Mae CDLL Cyngor Caerdydd yn amlygu'r defnydd o dir sydd ym mherchnogaeth yr Associated British Ports i'w ddefnyddio o bosib fel y llwybr bws ar ochr Bae Caerdydd y Morglawdd - gallai olygu bod angen prynu tir 	<p>Dibyniaethau</p> <ul style="list-style-type: none"> Cyngor Caerdydd sy'n gyfrifol am reoli Morglawdd Caerdydd Gwrthdaro posibl rhwng bysiau a'r rhai sydd eisoes yn defnyddio Morglawdd Caerdydd (cerddwyr a beicwyr) Pwysigrwydd Parc Gwledig Llynnoedd Cosmeston fel atyniad amgylcheddol, treftadaeth ac ymwelwyr - byddai angen sicrhau na fyddai'r cynnig Parcio a Theithio yn cael effaith negyddol Costau refeniw parhaol posibl yn gysylltiedig â gweithredu'r gwasanaeth bws 										

ALLWED:

CADARNHAOL IAWN (+++)	EITHAF CADARNHAOL (++)	YCHYDIG AGWEDDAU CADARNHAOL (+)	NIWTRAL (0)
NEGyddOL IAWN (---)	EITHAF NEGyddOL (--)	YCHYDIG AGWEDDAU NEGyddOL (-)	




Dewis 3: Cyfnewidfa Drafnidiaeth Gynaliadwy Aml-foddol Cogan

Mae'r dewis hwn yn cynnwys gwelliannau i Orsaf Cogan i greu cyfnewidfa aml-foddol a gwella'r cysylltiad rhwng y rheilffordd a mathau eraill o drafnidiaeth. Mae astudiaeth cynllun meistr blaenorol wedi ei gwblhau ar ran Trafnidiaeth Cymru gan yr ymgynghorwyr, WSP. Mae'r cynigion o ran dewisiadau a gyflwynir yma yn seiliedig ar ganlyniadau'r astudiaeth hon.

Gallai cynigion gynnwys:

- Darparu manau parcio ceir ychwanegol ar gyfer y gwasanaeth Parcio a Theithio drwy ddatblygu tir gwag ar ben gorllewinol y safle, a/neu'r posibilrwydd o ddatblygu safle presennol Travis Perkins. Gallai cyfyngiadau'r safle a'r lle sydd ar gael gyfyngu ar y cyfuniad o fesurau a ddatblygir.
- Darparu pont 'mynediad i bawb' dros y rheilffordd.
- Gwelliannau i'r fynedfa o'r briffordd i'r safle (h.y. o'r A4160 Windsor Road ac o bosib darparu pedwaredd ffordd ar gylchfan Cogan Hill).
- Gwelliannau i gyfleusterau presennol yr orsaf (e.e. swyddfa docynnau newydd, tai bach i gwsmeriaid, man parcio beiciau a gwell manau aros i deithwyr).
- Darparu cyfleuster cyfnewidfa fysiau a thacsis newydd.
- Gwelliannau Teithio Llesol i'r gyfnewidfa.



Ffigur 4: Cynigion ar gyfer gwelliannau i Gyfnewidfa Cogan.

Adolygiad Dewis 3

Tabl 5 - Cyfnewidfa Drafnidiaeth Gynaliadwy Aml-foddol Cogan

<p>Problemau yr eir i'r afael a nhw</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r traffig a'r tagfeydd presennol yn achosi amseroedd teithio annibynadwy, oedi a llygredd Mae'r traffig trwm yn rhwstr i gerdded a beicio Cryn ddefnydd o geir a defnydd prin o drafnidiaeth gyhoeddus Nid yw dewisiadau trafndiaeth gynaliadwy yn ddewis amgen deniadol yn hytrach na defnyddio car Gwasanaethau bws annibynadwy ac amseroedd teithio araf Diffyg cyfleusterau Parcio a Theithio yn cyfyngu'r cyfleoedd ar gyfer cyfnewidfa Trafnidiaeth Gyhoeddus Ychydig o Deithio Llesol Mae materion diogelwch yn rhwstr i gerdded a beicio Diffyg llwybrau cerdded a beicio diogel, hygyrch, deniadol, cysylltiedig ac uniongyrchol Diffyg cyfleusterau i feicwyr ar ddechrau a chyrchfan eu taith Allryiadau traffig ffordd a thagfeydd yn cyfrannu at leihau ansawdd yr aer mewn rhai ardaloedd Cysylltedd gwael â'r ardal ehangach yn lleihau'r potensial ar gyfer twristiaeth ac ymwelwyr hamdden 										
<p>Arfarniad o Amcanion</p>	<table border="1"> <tr> <td data-bbox="346 816 1270 945">Gwella cysylltedd cynaliadwy drwy holl goridor trafndiaeth Morglawdd Penarth Caerdydd fel bod pobl yn dechrau dewis trafndiaeth gyhoeddus a theithio llesol yn hytrach na'u ceir eu hunain</td> <td data-bbox="1270 816 1429 945">+</td> </tr> <tr> <td data-bbox="346 945 1270 1047">Lleihau rhwystrau sy'n llyffetheirio cyfleoedd i gynyddu teithio ar drafnidiaeth gynaliadwy</td> <td data-bbox="1270 945 1429 1047">++</td> </tr> <tr> <td data-bbox="346 1047 1270 1140">Cynyddu dewisiadau teithio cynaliadwy i wella hygyrchedd ar hyd coridor trafndiaeth Morglawdd Penarth Caerdydd a chefnogi cynhwysiant cymdeithasol, iechyd a lles</td> <td data-bbox="1270 1047 1429 1140">+</td> </tr> <tr> <td data-bbox="346 1140 1270 1238">Cyflawni gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus sy'n annog mwy o weithgarwch economaidd ac yn cefnogi buddsoddi hirdymor</td> <td data-bbox="1270 1140 1429 1238">++</td> </tr> <tr> <td data-bbox="346 1238 1270 1331">Cyflwyno dulliau teithio cynaliadwy sy'n gwarchod ac yn gwella'r amgylchedd hanesyddol, adeiledig a naturiol</td> <td data-bbox="1270 1238 1429 1331">+</td> </tr> </table>	Gwella cysylltedd cynaliadwy drwy holl goridor trafndiaeth Morglawdd Penarth Caerdydd fel bod pobl yn dechrau dewis trafndiaeth gyhoeddus a theithio llesol yn hytrach na'u ceir eu hunain	+	Lleihau rhwystrau sy'n llyffetheirio cyfleoedd i gynyddu teithio ar drafnidiaeth gynaliadwy	++	Cynyddu dewisiadau teithio cynaliadwy i wella hygyrchedd ar hyd coridor trafndiaeth Morglawdd Penarth Caerdydd a chefnogi cynhwysiant cymdeithasol, iechyd a lles	+	Cyflawni gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus sy'n annog mwy o weithgarwch economaidd ac yn cefnogi buddsoddi hirdymor	++	Cyflwyno dulliau teithio cynaliadwy sy'n gwarchod ac yn gwella'r amgylchedd hanesyddol, adeiledig a naturiol	+
Gwella cysylltedd cynaliadwy drwy holl goridor trafndiaeth Morglawdd Penarth Caerdydd fel bod pobl yn dechrau dewis trafndiaeth gyhoeddus a theithio llesol yn hytrach na'u ceir eu hunain	+										
Lleihau rhwystrau sy'n llyffetheirio cyfleoedd i gynyddu teithio ar drafnidiaeth gynaliadwy	++										
Cynyddu dewisiadau teithio cynaliadwy i wella hygyrchedd ar hyd coridor trafndiaeth Morglawdd Penarth Caerdydd a chefnogi cynhwysiant cymdeithasol, iechyd a lles	+										
Cyflawni gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus sy'n annog mwy o weithgarwch economaidd ac yn cefnogi buddsoddi hirdymor	++										
Cyflwyno dulliau teithio cynaliadwy sy'n gwarchod ac yn gwella'r amgylchedd hanesyddol, adeiledig a naturiol	+										
<p>Manteision/ Anfanteision</p>	<table border="1"> <tr> <td data-bbox="346 1331 890 1993"> <p>Manteision</p> <ul style="list-style-type: none"> Gallai wneud ffurfiau cynaliadwy o drafnidiaeth yn fwy deniadol drwy gynnig cyfleoedd Parcio a Theithio ar gyfer y rheilffordd, cyfnewidfa fysiau a seilwaith teithio llesol gwell Mae'r orsaf yn elwa ar wasanaeth rheilffordd rheolaidd (ar hyn o bryd gwasanaeth bob chwarter awr o ddydd Llun i ddydd Sadwrn) Tir gwag ar gael ar y safle y gellid ei ddatblygu fel cyfleuster Parcio a Theithio ehangach Bydd yn cynyddu cysylltedd ardal yr astudiaeth gyda'r rhanbarth ehangach Mae'n gyfle i wneud Gorsaf Cogan yn fwy hygyrch i gerddwyr, beicwyr a'r rhai â symudedd cyfyngedig (e.e. ar hyd croesfan hygyrch newydd / ychwanegol.) Cyfle posibl i'w gwneud hi'n haws croesi'r A4160 ar Cogan Hill </td> <td data-bbox="890 1331 1429 1993"> <p>Anfanteision</p> <ul style="list-style-type: none"> Byddai angen mynedfa/allanfa i gyffordd brysur Andrew Road ar yr A4160 gyda'r posibilrwydd y bydd traffig yn cynyddu yn y dyfodol oherwydd ehangu Canolfan Hamdden Penarth i gynnwys Canolfan Les Ni fydd o fantais i'r rhai sydd eisiau newid er mwyn teithio ar/dod oddi ar reilffordd leol Penarth Gallai mwy o leoedd parcio yng Ngorsaf Cogan gynyddu'r tagfeydd presennol ar yr A4160 Cogan Hill/Windsor Road ac ar gyffordd Barons Court Mae'n bosibl y bydd pobl yn teithio i'r orsaf yn eu ceir yn hytrach na'r dewisiadau teithio llesol sydd ar gael ar hyn o bryd os bydd parcio ar gael </td> </tr> </table>	<p>Manteision</p> <ul style="list-style-type: none"> Gallai wneud ffurfiau cynaliadwy o drafnidiaeth yn fwy deniadol drwy gynnig cyfleoedd Parcio a Theithio ar gyfer y rheilffordd, cyfnewidfa fysiau a seilwaith teithio llesol gwell Mae'r orsaf yn elwa ar wasanaeth rheilffordd rheolaidd (ar hyn o bryd gwasanaeth bob chwarter awr o ddydd Llun i ddydd Sadwrn) Tir gwag ar gael ar y safle y gellid ei ddatblygu fel cyfleuster Parcio a Theithio ehangach Bydd yn cynyddu cysylltedd ardal yr astudiaeth gyda'r rhanbarth ehangach Mae'n gyfle i wneud Gorsaf Cogan yn fwy hygyrch i gerddwyr, beicwyr a'r rhai â symudedd cyfyngedig (e.e. ar hyd croesfan hygyrch newydd / ychwanegol.) Cyfle posibl i'w gwneud hi'n haws croesi'r A4160 ar Cogan Hill 	<p>Anfanteision</p> <ul style="list-style-type: none"> Byddai angen mynedfa/allanfa i gyffordd brysur Andrew Road ar yr A4160 gyda'r posibilrwydd y bydd traffig yn cynyddu yn y dyfodol oherwydd ehangu Canolfan Hamdden Penarth i gynnwys Canolfan Les Ni fydd o fantais i'r rhai sydd eisiau newid er mwyn teithio ar/dod oddi ar reilffordd leol Penarth Gallai mwy o leoedd parcio yng Ngorsaf Cogan gynyddu'r tagfeydd presennol ar yr A4160 Cogan Hill/Windsor Road ac ar gyffordd Barons Court Mae'n bosibl y bydd pobl yn teithio i'r orsaf yn eu ceir yn hytrach na'r dewisiadau teithio llesol sydd ar gael ar hyn o bryd os bydd parcio ar gael 								
<p>Manteision</p> <ul style="list-style-type: none"> Gallai wneud ffurfiau cynaliadwy o drafnidiaeth yn fwy deniadol drwy gynnig cyfleoedd Parcio a Theithio ar gyfer y rheilffordd, cyfnewidfa fysiau a seilwaith teithio llesol gwell Mae'r orsaf yn elwa ar wasanaeth rheilffordd rheolaidd (ar hyn o bryd gwasanaeth bob chwarter awr o ddydd Llun i ddydd Sadwrn) Tir gwag ar gael ar y safle y gellid ei ddatblygu fel cyfleuster Parcio a Theithio ehangach Bydd yn cynyddu cysylltedd ardal yr astudiaeth gyda'r rhanbarth ehangach Mae'n gyfle i wneud Gorsaf Cogan yn fwy hygyrch i gerddwyr, beicwyr a'r rhai â symudedd cyfyngedig (e.e. ar hyd croesfan hygyrch newydd / ychwanegol.) Cyfle posibl i'w gwneud hi'n haws croesi'r A4160 ar Cogan Hill 	<p>Anfanteision</p> <ul style="list-style-type: none"> Byddai angen mynedfa/allanfa i gyffordd brysur Andrew Road ar yr A4160 gyda'r posibilrwydd y bydd traffig yn cynyddu yn y dyfodol oherwydd ehangu Canolfan Hamdden Penarth i gynnwys Canolfan Les Ni fydd o fantais i'r rhai sydd eisiau newid er mwyn teithio ar/dod oddi ar reilffordd leol Penarth Gallai mwy o leoedd parcio yng Ngorsaf Cogan gynyddu'r tagfeydd presennol ar yr A4160 Cogan Hill/Windsor Road ac ar gyffordd Barons Court Mae'n bosibl y bydd pobl yn teithio i'r orsaf yn eu ceir yn hytrach na'r dewisiadau teithio llesol sydd ar gael ar hyn o bryd os bydd parcio ar gael 										
<p>Cyfyngiadau/ dibyniaethau</p>	<table border="1"> <tr> <td data-bbox="346 1993 890 2500"> <p>Cyfyngiadau</p> <ul style="list-style-type: none"> Angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol i wireddu'r cynigion Heriau technegol o ran gwneud gwelliannau ar reilffordd weithredol a lefelau/tirwedd y safle Gall cyfyngiadau'r safle effeithio ar ba fesurau y gellir eu cyflawni Mae angen prynu tir ar gyfer rhai elfennau o'r cynnig Mynedfa/allanfa brysur i/oddi ar yr A4160, anawsterau wrth ddarparu trefniadau eraill o ran mynedfa ac allanfa i'r safle ac oddi yno (e.e. cael ffordd arall i/o'r gylchfan) ac mae problemau eisoes gyda thagfeydd ar yr A4160 </td> <td data-bbox="890 1993 1429 2500"> <p>Dibyniaethau</p> <ul style="list-style-type: none"> Trafnidiaeth Cymru sy'n gyfrifol am wella'r rhwydwaith rheilffyrdd. Byddai angen i Drafnidiaeth Cymru ddatblygu a chyflawni'r cynllun Cefnogaeth gan randdeiliaid – y cwmnïau bws, Trafnidiaeth Cymru a Network Rail Prynu tir sydd mewn perchnogaeth breifat Mae dynodiad Ardal Rheoli Ansawdd Aer wedi bod ar waith yn flaenorol ar hyd darn o Windsor Road – angen sicrhau na fyddai'r cynnig yn cael effaith negyddol ar ansawdd aer lleol </td> </tr> </table>	<p>Cyfyngiadau</p> <ul style="list-style-type: none"> Angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol i wireddu'r cynigion Heriau technegol o ran gwneud gwelliannau ar reilffordd weithredol a lefelau/tirwedd y safle Gall cyfyngiadau'r safle effeithio ar ba fesurau y gellir eu cyflawni Mae angen prynu tir ar gyfer rhai elfennau o'r cynnig Mynedfa/allanfa brysur i/oddi ar yr A4160, anawsterau wrth ddarparu trefniadau eraill o ran mynedfa ac allanfa i'r safle ac oddi yno (e.e. cael ffordd arall i/o'r gylchfan) ac mae problemau eisoes gyda thagfeydd ar yr A4160 	<p>Dibyniaethau</p> <ul style="list-style-type: none"> Trafnidiaeth Cymru sy'n gyfrifol am wella'r rhwydwaith rheilffyrdd. Byddai angen i Drafnidiaeth Cymru ddatblygu a chyflawni'r cynllun Cefnogaeth gan randdeiliaid – y cwmnïau bws, Trafnidiaeth Cymru a Network Rail Prynu tir sydd mewn perchnogaeth breifat Mae dynodiad Ardal Rheoli Ansawdd Aer wedi bod ar waith yn flaenorol ar hyd darn o Windsor Road – angen sicrhau na fyddai'r cynnig yn cael effaith negyddol ar ansawdd aer lleol 								
<p>Cyfyngiadau</p> <ul style="list-style-type: none"> Angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol i wireddu'r cynigion Heriau technegol o ran gwneud gwelliannau ar reilffordd weithredol a lefelau/tirwedd y safle Gall cyfyngiadau'r safle effeithio ar ba fesurau y gellir eu cyflawni Mae angen prynu tir ar gyfer rhai elfennau o'r cynnig Mynedfa/allanfa brysur i/oddi ar yr A4160, anawsterau wrth ddarparu trefniadau eraill o ran mynedfa ac allanfa i'r safle ac oddi yno (e.e. cael ffordd arall i/o'r gylchfan) ac mae problemau eisoes gyda thagfeydd ar yr A4160 	<p>Dibyniaethau</p> <ul style="list-style-type: none"> Trafnidiaeth Cymru sy'n gyfrifol am wella'r rhwydwaith rheilffyrdd. Byddai angen i Drafnidiaeth Cymru ddatblygu a chyflawni'r cynllun Cefnogaeth gan randdeiliaid – y cwmnïau bws, Trafnidiaeth Cymru a Network Rail Prynu tir sydd mewn perchnogaeth breifat Mae dynodiad Ardal Rheoli Ansawdd Aer wedi bod ar waith yn flaenorol ar hyd darn o Windsor Road – angen sicrhau na fyddai'r cynnig yn cael effaith negyddol ar ansawdd aer lleol 										

ALLWED:

CADARNHAOL IAWN (+++)	EITHAF CADARNHAOL (++)	YCHYDIG AGWEDDAU CADARNHAOL (+)	NIWTRAL (0)
NEGyddOL IAWN (---)	EITHAF NEGyddOL (---)	YCHYDIG AGWEDDAU NEGyddOL (-)	

Y Camau Nesaf

Yn dilyn eich adborth, caiff adroddiad WelTag Cam 2 ei lunio a'i gyflwyno i Gyngor Bro Morgannwg ar gyfer ei adolygu. Bydd yr adroddiad yn cynnwys amlinelliad o'r gwaith a fyddai'n angenrheidiol yn rhan o arfarniad Achos Busnes Llawn WelTag Cam 3 os penderfynir bwrw ymlaen ag un neu fwy o'r dewisiadau.

Diolch am roi o'ch amser i ddod i ddigwyddiad heddiw.